



# YSWIRIANT CYNNWYS CARTREF



Sut fydddech chi'n ymdopi pe byddai eich dodrefn a'ch eiddo yn cael eu difrodi neu eu dwyn?

Mae llawer o denantiaid yn credu bod Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) yn yswirio cynnwys eu cartref - **nid yw hyn yn wir.**

**Nid ydym** yn yswirio eiddo personol, dodrefn nag addurniadau mewnol yn erbyn lladrad, tân, fandaliaeth neu beipen wedi byrstio/ difrod dŵr.

**Mae'n rhaid i denantiaid drefnu yswiriant cynnwys y cartref eu hunain**, neu gymryd yswiriant cynnwys y cartref drwy gynllun penodol CCG sy'n cael ei drefnu gan gwmni sydd wedi ei gymeradwyo.

## **YSWIRIANT AR GYFER EICH DODREFN, TELEDU, DILLAD, CARPEDI AC OFFER TRYDANOL**

Pan fyddwch yn cymryd yr yswiriant yma, bydd rhan fwyaf o'ch nwyddau a chynnwys eich cartref wedi eu hyswirio. Am wybodaeth bellach edrychwch ar wybodaeth manwl y polisi.

### **Yswiriant 'newydd am hen'**

Bydd holl gynnwys eich cartref yn cael ei amddiffyn yn y polisi ar sail 'newydd am hen' heblaw am dillad ble byddwch yn derbyn rhai newydd ar sail eu cost cyfredol, llai cost ar gyfer traul.

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel Braille, llythrennau bras, neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.

## ISAFSWM YSWIRIO

Y swm isaf y gallwch ei yswirio yw:

£7,000 os ydych dros 60 oed, neu  
£10,000 ar gyfer pob tenant arall.

## TALU'R PREMIWM

Gallwch dalu'r premiwm yn wythnosol yr un pryd a'r un ffordd y byddwch yn talu'ch rhent. Gall yswiriant cynnwys y cartref fod mor rhad â £1.47 yr wythnos (rhagamcan/yn amodol ar newid).

I sicrhau eich bod bob amser wedi eich yswirio, rhaid gwneud yn siŵr eich bod yn gwneud y taliadau.

### Dim tâl ychwanegol (excess)

Does dim tâl ychwanegol neu excess i'w dalu ar y polisi yma.

### Dyddiad cychwyn

Bydd yr yswiriant yn cychwyn unwaith y byddwch wedi cael eich derbyn ar y cynllun. Mae dyddiad cychwyn ar ddydd Llun bob amser. Os, am unrhyw reswm, na fyddwch yn cael eich derbyn ar y cynllun, byddwch yn cael gwybod am hyn yn ysgrifenedig.

### Nodiadau arbennig

Os yw eich cartref yn debyg o fod yn wag yn ystod cyfnod eich yswiriant (e.e. os ydych yn yr ysbyty, ar wyliau hir) am fwy na 30 diwrnod yn olynol, rhaid i chi roi gwybod i ni.

## SUT I WNEUD CAIS

Ffoniwch ni am ffurflen gais ar 0300 123 8084. Fel arall, dewch i ymweld â ni yn y swyddfa ardal.

Os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen, mae croeso i chi gysylltu â ni. Anfonwch eich ffurflen at:

Cartrefi Cymunedol Gwynedd  
PO BOX 206  
Bangor  
Gwynedd  
LL57 9DS

**Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn cynghori holl denantiaid i drefnu yswiriant cynnwys y cartref, un ai drwy ein cynllun ni neu drwy wneud trefniadau eich hun.**

# Cwestiynau cyson

## BETH YW YSWIRIANT CYNWYS CARTREF?

Os oes tân neu lifogydd yn eich cartref ni fydd CCG yn gyfrifol am eich eiddo personol. Mae yswiriant cynnwys yn eich digolledu mewn achosion tebyg i hyn.

## PA MOR HIR MAE'R POLISI YSWIRIANT YN PARA?

Yn wahanol i lawer o bolisiau fel hyn nid oes angen ei adnewyddu bob blwyddyn a bydd yr yswiriant yn parhau oni bai eich bod yn derbyn llythyr yn dweud fel arall a'ch bod yn cadw fyny efo'r taliadau. Rydym yn eich cynghori i adolygu lefel yr yswiriant yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn ddigonol.

## BLE GAI FWY O WYBODAETH AM YR YSWIRIANT?

Os ydych eisiau cyngor pellach neu wybodaeth am yr yswiriant cynnwys cartref cysylltwch efo ni yn CCG ar 0300 123 8084 a gofynnwch am y tîm yswiriant.

## SUT ALLAI AMCANGYFRIF GWERTH FY EIDDO?

Dyma dabl i'ch helpu chi - cofiwch gynnwys pob dim, gall eich eiddo fod gwerth mwy nag yr ydych yn ei feddwl.

YSTAFELL/ EITEM	GWERTH	YSTAFELL/ EITEM	GWERTH
Ystafell fyw 1 e.e. teledu, radio, sofa, cyfrifiadur, llenni, carped, dodrefn	£	Llofft 1 e.e. gwely, carped, llenni, tlysau, gemau, teganau, cyfrifiadur	£
Ystafell fyw 2 e.e. bwrdd, cadeiriau, carped, dodrefn arall, goleuadau, ornaments	£	Llofft 2 e.e. gwely, carped, llenni, tlysau, gemau, teganau, cyfrifiadur	£
Cegin e.e. popty, rhewgell, llestri, bwrdd, cadeiriau, goleuadau, eitemau trydanol	£	Eitemau eraill e.e. peiriant torri gwair, offer garddio, glanhawr	£
	£		£